Datganiad i'r Wasg

Ffôn: Ymholiadau gan y cyfryngau: 0203 334 3527
Arolygiaeth Prawf EM • Ail Lawr • Ashley House • 2 Monck Street • Llundain • SW1P 2BQ
Ffôn: 020 7035 2202 • Ffacs: 020 7035 2237
E-bost: HMIP.enquiries@hmiprobation.gsi.gov.uk • http://inspectorates.justice.gov.uk/hmiprobation/

Arolygiad annibynnol o waith prawf a throseddau ieuenctid

DAN EMBARGO TAN 00:01 11/03/09
CYHOEDDI ADRODDIAD AROLYGU
GWASANAETH ATAL TROSEDDWYR IFANC SIR GAERFYRDDIN

Heddiw, cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf o bedwerydd cam yr arolygiadau o Dimau Troseddwyr Ifanc (TTI) yng Nghymru a Lloegr. Cynhaliodd tîm arolygu amlasiantaethol yr arolygiad o Wasanaeth Atal Troseddwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin (GATI).

Meddai Andrew Bridges, Prif Arolygwr Prawf EM:

"Arolygwyd Gwasanaeth Atal Troseddwyr Ifanc (GATI) Sir Gaerfyrddin ym mis Hydref 2008, yn ystod pedwerydd cam ein rhaglen arolygu TTI. Bu i ni ganfod GATI sy'n darparu gwasanaeth o safon uchel gyda thîm o staff ymroddedig. Mae'r Bwrdd Rheoli'n rhoi arweiniad a chyfeiriad clir. Ein hasesiad cyffredinol o GATI Sir Gaerfyrddin yw ei fod yn cyrraedd safonau uchel yn y rhan fwyaf o feysydd a cheir llawer o enghreifftiau da o waith adeiladol ac arloesol. Ceir dealltwriaeth drylwyr o'i gryfderau a'i wendidau, ac y mae rhagolygon da ar gyfer datblygu i'r dyfodol."

Prif ganfyddiadau'r adroddiad yw:

Gwaith yn y llysoedd

Roedd gan ynadon y llys ieuenctid, staff Gwasanaeth Erlyn y Goron a swyddogion y llysoedd ffydd yn y gwasanaethau cymorth a goruchwylio a ddarperid gan y GATI. Yr oedd adborth ysgrifenedig ffurfiol yn cael ei ddadansoddi o Lys Ieuenctid Llanelli, ac os byddai'n llwyddiannus byddai'n cael ei ymestyn i'r ddau lys ieuenctid arall yn yr ardal. Yr oedd adroddiadau cyn dedfrydu ac adroddiadau cosb benodol o ansawdd da ac yn defnyddio'r fformat a gymeradwywyd, ond darparwyd copïau o'r adroddiad cyn dedfrydu i'r plentyn neu'r person ifanc ac i'r rhieni/gofalwyr mewn cyfran isel iawn o'r achosion yn unig.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned

Yr oedd gan y GATI Banel Cynnwys a Chefnogi Plant Sir Gaerfyrddin yn ei le i atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gan blant risg uchel a phobl ifanc o wyth i dair ar ddeg oed. Roedd amrywiaeth o weithgareddau diddorol a heriol ar gael i dywys plant a phobl ifanc oddi wrth ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu.

Canfuom beth gwaith rhagorol gyda rhieni/gofalwyr. Yr oedd rhieni/gofalwyr yn cael eu hasesu am addasrwydd, a defnyddid ystod o raglenni ac adnoddau i ddiwallu'r anghenion aseswyd o ran magu plant. Yr oedd y GATI wedi datblygu cynllun llwyddiannus i fentora rhieni, a oedd yn hyfforddi ac annog rhieni/gofalwyr a oedd wedi cael budd yn y gorffennol o ymyriadau magu plant, i ddod yn fentoriaid gwirfoddol.

Roedd asesiadau'n defnyddio ystod o ffynonellau, ac yr oedd panel risg mewnol wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus o gan y GATI ym mis Hydref 2007 i ystyried achosion yr ystyrid eu bod yn Risg o Niwed i eraill

neu lle'r ystyrid bod plant a phobl ifanc yn agored i niwed. Yr oedd gwendidau yn y meysydd a gwmpasid gan y panel hwn, ond yr oedd sylw'n cael ei roi iddynt. Cawsom dystiolaeth i awgrymu fod y plentyn neu'r unigolyn ifanc wedi bod yn berygl iddyn nhw eu hunain ac yn wynebu risg gan eraill mewn cyfran uchel o'r sampl achosion, ond nid oedd cynllun rheoli agored-i-niwed wedi'i gynhyrchu i gwrdd â'r angen a nodwyd yn y mwyafrif o'r achosion perthnasol a arolygwyd.

Cawsom fod diffyg cysondeb o ran cwrdd ag anghenion y cynllun ymyrryd cychwynnol. Er bod cynlluniau wedi'u cwblhau mewn cyfran uchel o'r sampl achosion, nid oeddynt wedi'u goleuo gan gyswllt â gwasanaethau plant; nid oeddynt yn cwrdd ag amserlenni; nid oeddynt yn manylu'n glir pwy fyddai'n darparu'r ymyriadau; ac nid oedd y plentyn neu'r unigolyn ifanc a'r rhiant/gofalwr wedi llofnodi'r cynllun mewn cyfran uchel o'r achosion a arolygwyd.

Yr oedd nifer o swyddi yn y tîm atal ac ymyriadau buan yn dibynnu ar gyllid tymor byr gan greu ansicrwydd ac effeithio ar flaengynllunio a morâl y staff. Yr oedd rhai gwasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, ond cyfyngid arnynt gan y nifer o staff cymwys a'r nifer o wirfoddolwyr ar gael.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc a ddedfrydwyd i'w cadw dan glo

Lle'r oedd plant a phobl ifanc yn cael eu remandio neu'n cael eu dedfrydu i gyfnod mewn sefydliad diogel, anfonid gwybodaeth allweddol ar unwaith. Yr oedd asesiadau ar blant a phobl ifanc a oedd yn destun dedfrydau cadw dan glo a'r cyfathrebu â sefydliadau yn gyffredinol dda, ac roedd y GATI'n helpu i hwyluso ymweliadau gan rieni/gofalwyr a darparu'r cynllun hyfforddi ynghyd â pharatoad ar gyfer cael eu rhyddhau.

Roedd manteision amlwg i'r gymuned yn sgil lleihau difrifoldeb y troseddu, amlder y troseddu a'r bygythiad i ddioddefwyr a darpar ddioddefwyr. Wrth ymgynghori â phlant a phobl ifanc ac â rhieni/gofalwyr, awgrymwyd bod pethau wedi gwella iddynt yn sgil eu cysylltiad â'r GATI.

Cawsom fod gwendidau o ran asesu'r Risg o Niwed Difrifol i eraill. Nid oedd asesiadau na'r cynllun rheoli risg wedi cyrraedd y safon ofynnol. Yn ogystal, gwelsom dystiolaeth fod plant a phobl ifanc a fu mewn perygl iddynt eu hunain neu gan eraill heb fod â chynllun gweithredu agored-i-niwed wedi'i baratoi i leihau'r risgiau a nodwyd.

Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, ni chawsom dystiolaeth y bu manteision i'r gymuned drwy wneud iawn yn unrhyw un o'r sampl achosion ac nid oedd cynllun dysgu unigol y plentyn neu'r person ifanc wedi parhau yn dilyn ei ryddhau mewn cyfran uchel iawn o'r achosion a arolygwyd.

Dioddefwyr a chyfiawnder adferol

Ar y cyfan, roedd dioddefwyr y cyfwelwyd â hwy a/neu a oedd wedi llenwi holiaduron yn gadarnhaol eu hagwedd at waith y GATI. Gwahoddwyd pob dioddefwr i ddarparu adborth a derbyniasant ffurflenni i'r diben hwn. Trafodwyd yr adborth hwn fel eitem sefydlog ar agenda'r cyfarfodydd dyrannu ac adolygu wythnosol, ac fe'i defnyddiwyd i wella gwasanaethau.

Roedd amrywiaeth o ymyriadau cyfiawnder adferol ar gael gan y GATI a'r rhain yn cynnwys llythyrau ymddiheuro, cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb ac amrywiol weithgareddau gwneud iawn yn y gymuned. Yr oedd modd hefyd i ddioddefwyr gymryd rhan mewn paneli troseddau ieuenctid, ond anaml y byddent yn bresennol.

Rheolaeth ac arweiniad

Cadeiriwyd y Bwrdd Rheoli gan Brif Weithredwr Cynorthwyol Cyngor Sir Gaerfyrddin. Roedd cyfansoddiad y Bwrdd Rheoli'n briodol, ac roedd yn cynnig arweiniad a chyfeiriad effeithiol. Yr oedd y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2007/2008 wedi parhau i ddatblygu'r cynnydd a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol, ac roedd tystiolaeth dda o integreiddio gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Phlant a Phobl Ifanc a chynlluniau a strategaethau eraill.

Roedd ysbryd y staff yn dda ac yn gadarnhaol gyda golwg ar y drefn reoli, ymarfer a'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol.

Roedd ystyriaethau ynglŷn ag amrywiaeth yn cael sylw ac roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) o ran Cynllun Iaith ond nid oedd y GATI wedi mynd i'r afael yn llawn â gofynion ieithyddol a diwylliannol penodol y rhieni/gofalwyr a'r plant a'r bobl ifanc yr oedd yn eu gwasanaethu.

NODIADAU I OLYGYDDION

1. Cynhaliwyd yr arolygiad o GATI Sir Gaerfyrddin ym mis Hydref 2008. Cyfanswm poblogaeth Sir Gaerfyrddin oedd 172,842 yn ôl Cyfrifiad 2001. O'r boblogaeth hon, roedd 10.4% rhwng 0 - 17 oed adeg y cyfrifiad. Roedd y ffigur hwn yr un fath â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru/Lloegr. Gyda 64% o'r boblogaeth yn meddu ar sgiliau yn yr iaith Gymraeg, yr oedd yn cael ei gyfrif yr awdurdod lleol trydydd uchaf yng Nghymru yng nghyswllt hynny. Gallai 71.7% o blant a phobl ifanc rhwng pump a phymtheg mlwydd oed siarad Cymraeg.
2. Mae naw Arolygiaeth yn cynnal arolygiadau'r Timau Troseddwyr Ifanc. Dyma nhw: y Comisiwn dros Arolygu Gofal Cymdeithasol, Estyn (Arolygiaeth EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Comisiwn Gofal Iechyd, Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM, Arolygiaeth Carchardai EM, Arolygiaeth Prawf EM, y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted) ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.
3. Dechreuodd y rhaglen Arolygu Timau Troseddwyr Ifanc ym mis Mehefin 2003. Arolygir pob un o'r 157 TTI yng Nghymru a Lloegr dros gylch pum mlynedd.
4. Cynhelir yr arolygiad yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth i arolygiad cymesur a chydgysylltiedig mewn llywodraeth leol, wedi'i lywio gan ganlyniadau'r Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Felly, mae rhaglen wedi'i datblygu sydd:
   - yn gymesur â'r risg ac sy'n arolygu dim ond y meysydd gwaith hynny lle mae tîm yn perfformio'n dda er mwyn lledaenu arferion da
   - yn ategu, ac sy'n cael ei chydlynu â rhaglenni arolygu eraill, yn bennaf y Cyd-arolygiadau Ardal o wasanaethau plant (dan arweiniad Ofsted) a'r Asesiad Corfforaethol (dan arweiniad y Comisiwn Archwilio).
   - yn cymryd datblygiad diweddar TTIau fel sefydliadau i ystyriaeth.
5. Mae safonau a meini prawf cynhwysfawr wedi cael eu datblygu ar gyfer pedwerydd cam yr arolygiad, gan ganolbwyntio ar y canlynol:
   - gwaith yn y llysoedd
   - plant a phobl ifanc yn y gymuned (y rheini sy'n wynebu risg o droseddu a'r rheini sydd wedi troseddu)
   - plant a phobl ifanc a ddedfrydwyd i'w cadw dan glo
   - dioddefwyr a chyfiawnder adferol
   - rheolaeth ar y TTI a threfniadau partneriaeth.